# Eich Newyddlen

Newyddlen y tenantiaid ar gyfer Gwasanaethau Tai Sir Ddinbych

RHIFYN 16

Hydref/Gaeaf 2025

## Haf o Hwyl ar draws Sir Ddinbych

Darllennwch y stori lawn ar dudalen 5















**Safon Ansawdd Tai Cymru** Tudalen 8

**Beth yw Taliadau Gwasanaeth?** Tudalen 11

**Llwydni a chyddwysiad** Tudalen 15

Tai Sir Ddinbych
Denbighshire Housing
Buddsoddi yn ein Cymunedau • Investing in our Communities

www.taisirddinbych.co.uk

tai@sirddinbych.gov.uk

Cyngor sir ddinbych
denbighshire County Council

# Croeso i'r rhifyn diweddaraf o'ch newyddlen



## Geoff Davies, Swyddog Arweiniol – Tai Cymunedol

***Fel arfer mae yna lawer o wybodaeth ar beth rydym ni a'n cymunedau wedi bod yn ei wneud a gobeithio y bydd yn ddefnyddiol i chi.***

Er ei bod yn teimlo fel bod hyn wedi cyrraedd yn gyflym, mae disgwyl ein harolwg o'n holl aelwydydd, sef yr Arolwg Tenantiaid a Phreswylwyr, unwaith eto. Rydym yn gwerthfawrogi pob ymateb rydym yn ei gael ac fe allaf eich sicrhau ein bod yn defnyddio'r adborth i weld lle rydym yn gwneud yn dda, lle mae angen i ni wella neu wneud pethau'n wahanol. Byddwn yn cyhoeddi'r canlyniadau yn y newyddlen nesaf ynghyd â'n cynllun gweithredu. Byddwn hefyd yn cyhoeddi diweddariad rheolaidd "Dywedoch chi, gwnaethom ni" i ddangos beth rydym wedi ei wneud i ymateb i hyn. Bydd yr adborth hefyd yn cael ei adrodd i Bwyllgor Craffu Cymunedau'r Cyngor yn y flwyddyn newydd.


Rydym yn gwerthfawrogi'r amser rydych yn ei dreulio yn cwblhau'r arolwg.

Rydym yn gwybod fod gennym ni lawer i'w wneud o hyd i wella ac mae llawer o bethau yn newid yn barhaus i ni. Fe welwch wybodaeth reolaidd gennym ni ynglŷn â Safon Ansawdd Tai Cymru (Tudalen 8). Dyma'r safon mae'n rhaid i ni ei chyrraedd gyda'n holl gartrefi. Mae gan y safon ddiweddaraf fwy o ofynion na'r hyn oedd rhaid i ni ei gyflawni'n flaenorol felly fe fydd yn daith i ni ei chynllunio, ei hariannu a chyflawni'r gwaith i sicrhau hyn.  Bydd angen cefnogaeth ein tenantiaid a'r cymunedau arnom ni yn ogystal â chefnogaeth ein staff a'n contractwyr i gyflawni hyn.

### Gellir ailgylchu'r 100% or newyddlen hon

MIX
Paper | Supporting responsible forestry
FSC® C006518
FSC www.fsc.org

Unwaith y byddwch wedi darllen y newyddlen, gallwch ei rhoi ym mlwch uchaf eich Trolibocs sydd â chaead glas.



Mae hefyd yn gyfnod lle rydym yn ffarwelio â'n Pennaeth Tai a Chymunedau yn y Cyngor, Liz Grieve. Mae Liz wedi bod yn angerddol ynglŷn â'n gwasanaeth i'n cwsmeriaid a sicrhau ein bod yn gwneud yr hyn sy'n iawn dros ein cwsmeriaid pryd bynnag y gallwn. Mae hefyd wedi sicrhau ein bod yn gwrando a'n bod mor agos i'n cymunedau â phosibl. Mae Liz hefyd wedi goruchwylio adeiladu'r cartrefi newydd cyntaf yn y sir ers dros 30 mlynedd!

Gobeithio y bydd yna wybodaeth am olynydd Liz yn y newyddlen nesaf.

Os oes gennych chi unrhyw sylwadau ar y newyddlen neu unrhyw syniadau am gynnwys yn y dyfodol, rhowch wybod i ni.

## Yn y rhifyn hwn:

### Tai Sir Ddinbych:

2 Neges gan Geoff
3 Neges gan Ffederasiwn Tenantiaid a Phreswylwyr
14 STAR
15 Cyngor ar lwydni ac anwedd

### Cymuned a Phobl:

6-7 Diweddariad ar wydnwch cymunedol
5 Llys Llen
12 Gweithio Sir Ddinbych

### Diweddariadau a chyngor:

4 Cartrefi mwy i deuluoedd mwy
4 Atgyweiriadau y codir tal amdanynt
5 Diweddariad ar waith wedi'i gynllunio
8-9 Safonau Ansawdd Tai Cymru – Beth mae hyn yn ei olygu i chi
10 Costau byw
11 Beth yw Taliadau Gwasanaeth?
16 Paratoi eich cartref ar gyfer y gaeaf

# Ffederasiwn Tenantiaid a Phreswylwyr Sir Ddinbych a negesfwrdd

## Helo bawb

Ers y newyddlen ddiwethaf, mae Ffederasiwn Tenantiaid a Phreswylwyr Sir Ddinbych wedi bod yn gweithio'n galed gyda Thai Sir Ddinbych ac wedi bod yn brysur yn ymweld â gwelliannau sydd wedi'u gwneud, gan gynrychioli tenantiaid yn rhanbarthol a chroesawu aelod newydd. Dyma rai o'n huchafbwyntiau dros y chwe mis diwethaf:

- **Ymweld â gardd gymunedol Llygadog** – Gwnaeth yr ymweliad â'r ardd gymunedol hon, sydd wedi'i gwella'n ddiweddar, argraff fawr arnom. Mae'r preswylwyr yn falch iawn o'u gofod newydd. Mae wedi rhoi ambell syniad gwych i ni o ran sut y gallwn weithio gyda'n cymdogion i ddatblygu gerddi cymunedol.
- **Ymweliad â Thŷ Gwyddfai** – Trefnodd TPAS Cymru daith wych â'r safle hwn ar gyfer archwilio arferion tai cynaliadwy a rhwydweithio gyda thenantiaid eraill. Cawsom drafodaeth hynod ddiddorol o amgylch y bwrdd ynghylch tai cynaliadwy.
- **Cyfarfodydd Pŵer Tenantiaid** – Dyma gyfle gwych i gynrychioli barn tenantiaid Sir Ddinbych i bartneriaid rhanbarthol. Ceir rhagor o wybodaeth am hyn yn rhifyn gwanwyn 26.
- **Pynciau yr ydym wedi'u trafod yn ddiweddar –**
  – Fe groesawom **siaradwr gwadd o AICO** i siarad am y synwyryddion sy'n mesur perfformiad cartrefi a beth mae hyn yn ei olygu i denantiaid.

  **– Monitro perfformiad** – Fe eglurodd swyddogion Tai Sir Ddinbych sut y caiff perfformiad ei fonitro a sut y mae'n siapio gwasanaethau.

  **– Taliadau gwasanaeth** – roedd hwn yn gyflwyniad gwych, felly rydym wedi cynnwys mwy o wybodaeth am hyn ar dudalen (insert page number).

  **– Gwefan** – rydym wedi datblygu sut y bydd y wefan yn edrych ar ôl iddi gael ei diweddaru, y cynnwys a chynlluniau ar gyfer cam dau. Buom yn llwyddiannus wrth lobïo dros y gallu i uwchlwytho lluniau/ fideos gyda cheisiadau am waith atgyweirio yn y dyfodol. Ceir rhagor o wybodaeth am hyn ar tudalen 14.

Ffederasiwn Tenantiaid a Thrigolion Sir Ddinbych
Denbighshire Tenants and Residents Federation

Ar dudalen (Tudalen 14), treuliwch rai munudau'n llenwi'r arolwg Tenantiaid a Phreswylwyr. Mae mor bwysig bod modd i denantiaid rannu adborth a helpu i siapio gwasanaethau ar ein cyfer yn y dyfodol gan Tai Sir Ddinbych.

Yn rhifyn gwanwyn 26 o'r newyddlen, byddwn yn rhoi gwybod i chi sut y gall tenantiaid rannu eu profiadau da o ran Tai Sir Ddinbych a sut i gymryd rhan mewn ambell i grŵp tasg a gorffen a fydd yn cael eu ffurfio.

Os hoffech chi fod yn rhan o Ffederasiwn Tenantiaid a Phreswylwyr Sir Ddinbych, cael gwybod pryd rydym ni yn yr ardal a gwneud gwahaniaeth, cysylltwch â ni! Rydym yn cyfarfod yn fisol, naill ai yn y Rhyl, Llanelwy, Dinbych, Rhuthun neu Gorwen, ac yn gobeithio croesawu mwy o aelodau newydd yn fuan.

**John, Cadeirydd Ffederasiwn Tenantiaid a Phreswylwyr Sir Ddinbych**
dtarf1@outlook.com

## NEGESFWRDD

**I roi gwybod am unrhyw faterion cynnal a chadw, cysylltwch â Gwasanaethau i Gwsmeriaid:**

Dydd Llun i ddydd Iau 9:00am-5:00pm, Dydd Gwener 9:00am-4:30pm
**01824 706000**

Argyfyngau y tu allan i oriau swyddfa
**0300 123 3068**

Galw Gofal (Llinell Ofal) **0300 123 6688**

Un Pwynt Mynediad ar gyfer atgyfeiriadau am gefnogaeth
**0300 456 1000**

Argyfwng nwy **0800 111 999**

Argyfwng trydan **0800 3163 105**

Galw Iechyd Cymru **111**

Floodline **0345 988 1188**

Type Talk **0345 602 6340**

# Cartrefi mwy ar gyfer teuluoedd mwy

Mewn rhifynnau blaenorol, rydym wedi rhannu newyddion am y cartrefi newydd yr ydym wedi bod yn eu hadeiladu yn Sir Ddinbych, gan gynnwys ein datblygiad diweddaraf o 22 o gartrefi newydd yn Ninbych.

Er bod adeiladu cartrefi newydd yn bwysig, rydym hefyd yn edrych ar ffyrdd eraill o helpu i ddiwallu anghenion tai ein teuluoedd mawr.

Un ffordd rydyn ni'n gwneud hyn yw drwy allu ymestyn rhai o'n hen dai, wrth iddynt ddod yn wag. Mae ambell un o'r rhain wedi bod yn rhai pen teras neu ar blot cornel, gyda gerddi mawr iawn, fel bod lle i ni adeiladu estyniad.

Yn ddiweddar, rydym wedi dechrau gwneud gwelliannau i rywfaint o dai yn y Rhyl a Phrestatyn. Rydym yn creu cartref 6 ystafell wely yn y Rhyl a chartref 7 ystafell wely ym Mhrestatyn. Ni fydd pob eiddo yn addas ar gyfer estyniad, gan fod yn rhaid i ni sicrhau bod yr ardd sy'n weddill yn ddigon mawr i'r tenantiaid yn y dyfodol, yn ogystal â sicrhau bod system ddraenio a chyfleustodau eraill ar gael.

Fodd bynnag, dyma ffordd arall y gallwn fynd i'r afael â'r angen am dai yn Sir Ddinbych.



## Atgyweiriadau y codir tâl amdanynt

Rydym wrthi'n adolygu ein polisi atgyweiriadau y codir tâl amdanynt ar hyn o bryd. Rydym eisiau sicrhau bod costau atgyweirio yn cael eu hadennill mewn modd teg ac effeithlon, gan ein helpu i reoli'r gwasanaeth yr ydym yn ei ddarparu i chi, yn gyfrifol. Byddwn yn gweithio'n agos â Ffederasiwn Tenantiaid a Phreswylwyr Sir Ddinbych (tudalen 3) i adolygu'r polisi hwn.

Mae ein gwefan yn cynnwys gwybodaeth ynghylch pa atgyweiriadau yr ydym ni'n gyfrifol amdanynt, a pha rai sy'n gyfrifoldeb arnoch chi. Ymhlith rhai enghreifftiau'n unig mae:

- Newid y cloeon os byddwch chi'n colli eich allweddi.
- Cynnal a chadw eich gardd, gan gynnwys ei thorri, biniau sbwriel ac ardaloedd sbwriel.
- Unrhyw wydr wedi torri.
- Addurno'r tu mewn.
- Offer trydanol.
- Rhwystrau gwastraff, gan gynnwys basnau, baddonau a thoiledau.

I gael mwy o wybodaeth ynglŷn â'r rhain, ewch i: https://www.denbighshirehousing.co.uk/cy/atgyweiriadau-a-chynnal-a-chadw/cyfrifoldeb-am-atgyweiriadau

Ar hyn o bryd, os byddwn yn gwneud unrhyw atgyweiriadau neu waith sy'n deillio o newidiadau diawdurdod, difrod, gwelliannau, cartrefi heb eu clirio'n iawn ac ati, bydd tenantiaid yn gyfrifol am dalu am unrhyw waith atgyweirio y codir tâl amdano.

Yn ddiweddar, ar ôl i rai o'n tenantiaid adael eu cartrefi, fe wnaethom ganfod eu bod wedi gadael cryn lanast yno. Mae hyn wedi arwain at orfod clirio sbwriel, glanhau'r eiddo'n drylwyr ac ati, fel bod modd i denantiaid newydd symud i mewn. Dyma rai lluniau'n unig o'r hyn y bu'n rhaid i ni ddelio ag ef. Dyma un enghraifft o waith atgyweirio y codir tâl amdano.

**Ymhlith rhai enghreifftiau eraill o atgyweiriadau y codir tâl amdanynt mae:**

- Rhwystrau yn y draeniau gan fod weips ac ati'n cael eu defnyddio.
- Colli allweddi.
- Difrod i ffenestri/ drysau.
- Difrod heblaw traul cyffredinol.
- Addasiadau a wnaed gennych chi heb awdurdod.
- Cael gwared ar sbwriel.
- Clirio eiddo'n wag - unrhyw eitemau sy'n cael eu gadael ar ôl wrth i chi ddod â'ch tenantiaeth i ben.

Pan fyddwch chi'n ffonio i gofnodi atgyweiriad, bydd staff ein canolfan gyswllt tai yn gallu eich cynghori a yw'n waith atgyweirio y codir tâl amdano ai peidio, a faint y gallai ei gostio. I gael rhagor o wybodaeth am atgyweiriadau y codir tâl amdanynt, ewch i'n gwefan https://www.denbighshirehousing.co.uk/cy/atgyweiriadau-a-chynnal-a-chadw/atgyweiriadau-y-codir-tal-amdanyn-nhw

# Gwaith wedi'i gynllunio

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Arolwg Cyflwr Stoc Dai Sir Ddinbych** – Fel rhan o Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) a ddiweddarwyd yn ddiweddar, mae angen i ni gynnal arolwg cyflwr stoc o'n stoc dai, gan gynnwys sicrhau bod gennych chi'r wybodaeth ddiweddaraf.

Gan weithio mewn partneriaeth â Rand Associates Ltd, rydym yn cynnal arolwg cyflwr stoc o'n stoc dai ar hyn o bryd. Cynhelir yr arolwg rhwng diwedd mis Medi 2025 a mis Mawrth 2026. Os caiff eich cartref ei ddewis, byddwch yn derbyn llythyr gan Rand Associates.

Beth sydd ynghlwm ag arolwg cyflwr stoc?
Beth fydd y syrfëwr eisiau ei weld?

**Bydd y syrfëwr yn:**

- Cario cerdyn adnabod, ac rydym yn eich annog i wirio hynny pan fyddent yn cyrraedd eich cartref.
- Edrych tu mewn a thu allan i'ch cartref, gan gynnwys:
  - Y gegin ac ystafelloedd ymolchi
  - Boeler
  - Systemau trydanol
  - Systemau gwresogi
  - Waliau, to, simneiau a'r atig
  - Ffenestri a drysau
  - Unrhyw ardaloedd tu allan
  - Cyflwr ffisegol cyffredinol eich cartref.
- Ni fyddent yn tarfu arnoch, ac ni fydd dodrefn yn cael eu symud na'u hamharu.
- Tynnu lluniau i gefnogi'r arolwg.

Os nad oes gennych Dystysgrif Perfformiad Ynni cyfredol ar gyfer eich cartref, yna bydd arolwg Tystysgrif Perfformiad Ynni yn cael ei gwblhau ar yr un pryd. Golyga hyn y bydd angen i'r syrfewyr fod yn eich cartref am gyfnod ychydig yn hirach. Bydd eich syrfëwr yn rhoi amlinelliad o'r broses ac yn ateb unrhyw gwestiynau posibl sydd gennych yn ystod yr ymweliad.

**Pryd fyddwch chi'n cael gwybod a yw eich cartref yn derbyn arolwg?**
Os caiff eich cartref ei ddewis, bydd RAND Associates yn cysylltu â chi, trwy lythyr, ac yn dweud beth fydd yn digwydd nesaf, gan gynnwys rhywfaint o gwestiynau cyffredin.

**Pa mor hir mae'r arolwg yn para?**
Bydd yr arolwg yn cymryd tua 30-45 munud i'w gwblhau. Nid yw'r arolwg yn casglu gwybodaeth am unrhyw atgyweiriadau sydd eu hangen i'ch cartref. Bydd angen i chi adrodd am y rhain yn y ffordd arferol.

**Beth sy'n digwydd i'r wybodaeth am fy nghartref?**
Bydd y wybodaeth a'r lluniau y mae'r syrfëwr yn eu casglu yn ein helpu ni i gynllunio pryd fydd angen gwneud unrhyw welliannau neu waith cynnal a chadw yn eich cartref yn y dyfodol. Mae hyn er mwyn sicrhau bod eich cartref yn aros yn ddiogel, yn gyfforddus ac mewn cyflwr da, yn ogystal â chydymffurfio â Safon Ansawdd Tai Cymru.

Bydd yr holl ddata a'r lluniau a gesglir yn cael eu cadw'n ddiogel a'u defnyddio at ddibenion yr arolwg hwn yn unig.

**Beth sydd angen i mi ei wneud nesaf?**
Mae'r arolygon hyn yn ein helpu i wneud penderfyniadau ynghylch sut a phryd yr ydym ni'n buddsoddi mewn gwella a diogelu ein heiddo ar gyfer y dyfodol. Mae hyn yn golygu cartrefi gwell ar eich cyfer chi a'n holl gwsmeriaid. Mae'n rhan o'n hymrwymiad i sicrhau ein bod ni'n darparu cartrefi diogel ac effeithlon, yn unol â Safon Ansawdd Tai Cymru. I gael rhagor o wybodaeth, gweler tudalen 8.

Rand
ASSOCIATES

## RYDYM WEDI YMRWYMO I GADW EICH CARTREF YN DDIOGEL – GADEWCH I NI DDOD I MEWN

Er mwyn gwneud hynny, mae'n hanfodol ein bod yn cynnal gwiriadau diogelwch rheolaidd, gan gynnwys archwiliadau trydanol a nwy, yn ogystal â gwiriadau cyfnodol ar gyfer asbestos, diogelwch tân a hylendid dŵr.

Bob blwyddyn, rydym yn cynnal gwiriadau diogelwch nwy ym mhob eiddo sydd â chyflenwad nwy. Mae hwn yn ofyniad cyfreithiol ac yn un o'r pethau pwysicaf yr ydym ni'n eu gwneud er mwyn eich cadw chi a'ch cymdogion yn ddiogel.

Hoffem atgoffa tenantiaid ei bod yn hanfodol eich bod yn caniatáu mynediad pan fydd ein contractwyr yn cysylltu â chi i drefnu apwyntiad ar gyfer cynnal y gwiriadau hyn. Rydym yn deall y gall bywyd fod yn brysur, ond gallai peidio â chaniatáu mynediad i'ch cartref eich rhoi chi mewn perygl. Gallai hyn arwain at gamau cyfreithiol, gan gynnwys gorchmynion llys, gan fod gennym gyfrifoldeb cyfreithiol i gwblhau'r gwiriadau hyn.

Gadewch i ni eich helpu, drwy ymateb i alwadau ffôn neu lythyrau apwyntiad cyn gynted â phosibl, a rhoi gwybod i ni os bydd eich manylion cyswllt yn newid. Cofiwch gysylltu os oes gennych chi unrhyw gwestiynau.

# Diweddariad Gwytnwch Cymunedol

## Haf o Hwyl ar draws Sir Ddinbych

**Mae wedi bod yn haf gwych!** Dros y gwyliau, fe wnaethon ni ymuno â'n ffrindiau yn Hamdden Sir Ddinbych Cyfyngedig, Gwasanaeth Ieuenctid Sir Ddinbych a Cheidwaid Chwarae, er mwyn cynnig toreth o weithgareddau hwyliog, yn rhad ac am ddim, i gymunedau ledled y sir.

Aeth y teuluoedd ati i gymryd rhan ym mhob elfen- o chwarae blêr a chelf a chrefft i sesiynau chwaraeon a heriau beiciau cydbwysedd. Yn wir, roedd yna rywbeth i bawb ei fwynhau yno!

Roedd hefyd yn gyfle hyfryd i denantiaid a phreswylwyr sgwrsio â'u Swyddogion Tai lleol a chwrdd ag aelodau o'n Tîm Eiddo. Yn ogystal â'r gweithgareddau, roedd yna ddigon o wynebau cyfeillgar yn cynnig cyngor a gwybodaeth, gan gynnwys Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych, Dŵr Cymru, Maethu Cymru, Teuluoedd yn Gyntaf a llawer mwy o bartneriaid cymunedol.

Diolch yn fawr iawn i bawb a ddaeth draw a chymryd rhan. Rydym yn edrych ymlaen eisoes at ddarparu mwy o hwyl gymunedol ar eich cyfer y flwyddyn nesaf.













## Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) - canlyniadau digwyddiadau'r haf

Bu'r tîm Gwytnwch Cymunedol allan trwy gydol yr haf yn holi ein tenantiaid beth yw eu 3 prif flaenoriaeth o'r 8 blaenoriaeth a nodir yn SATC23. Bydd hyn o gymorth gyda theilwra ein hamserlen waith a'n strategaeth wrth symud ymlaen i fodloni safonau SATC. I gael rhagor o wybodaeth am SATC, darllenwch ein herthygl ar dudalen 8.

Rydym yn dal yn awyddus iawn i glywed cymaint â phosibl o leisiau tenantiaid ynghylch SATC23 a'r hyn sy'n bwysig i chi. Os hoffech chi gael eich cynnwys, anfonwch e-bost at Sarah Jones yn ein Tîm Gwytnwch Cymunedol drwy cydnerthu.cymunedol@sirddinbych.gov.uk









### Eich Llais – cyfle i wneud gwahaniaeth

**At sylw bob tenant...** rydym yn ystyried sefydlu Grŵp 'Tasg a Gorffen' newydd, a fyddai'n canolbwyntio ar y gwaith o benodi a chyfathrebu â'n contractwyr.

**Beth mae'n ei olygu?**

Y cyfan sydd ei angen arnom yw eich amser! Rydym yn bwriadu cynnal tua 6 sesiwn, ac ni fyddant yn cymryd mwy na 2 awr yr un.

Os ydych chi'n teimlo bod hyn yn rhywbeth lle gallwch gynnig eich sgiliau a'ch gwybodaeth, anfonwch e-bost at Sarah Jones yn y tîm Gwytnwch **cydnerthu.cymunedol@sirddinbych.gov.uk**



## Gwelliannau i Ardd Gymunedol Llys Elizabeth

Mae grŵp awyddus o arddwyr o Lys Elizabeth ym Mhrestatyn wedi dod ynghyd i roi bywyd newydd i'w gardd gymunedol.

Cydweithiodd y preswylwyr i fynd i'r afael â llecyn mawr o fieri a oedd wedi gordyfu ac fe wnaethant ddechrau plannu llwyni a blodau lliwgar yn y gwlâu. Nid oedd unrhyw waith yn rhy fawr neu'n rhy fach, ac fe aeth pawb ati i gymryd rhan! Mae'r grŵp hefyd wedi rhoi ffordd o fyw newydd i fywyd gwyllt yn yr ardal trwy greu pwll bywyd gwyllt bychan, gwesty pryfed, pentwr compost a dôl blodau gwyllt.

Trwy gydweithio, maent wedi gwneud newid sylweddol yn eu hardal. Meddai un preswylydd, 'Rydym oll wrth ein bodd â'r ardd ac mae'n rhywbeth prydferth i ni edrych arno'. Roedd yna ymdeimlad cymunedol wrth i bawb helpu, sy'n wych'

Da iawn bawb am eich gwaith caled, mae'n edrych yn wych!

Os ydych chi'n credu bod angen rhywfaint o sylw ar eich gardd gymunedol, cysylltwch â Luisa yn y tîm Gwytnwch Cymunedol drwy anfon e-bost at cydnerthu.cymunedol@sirddinbych.gov.uk





# Cyflwyno'r Safon Ansawdd Tai Cymru newydd (SATC 2023) – Beth mae'n ei olygu i chi!

Yn ein newyddlen ddiwethaf, bu i ni gyflwyno'r SATC 2023 newydd, gan egluro beth mae'n ei olygu i chi a sut byddwn yn mynd ati i'w ddarparu. Yn y rhifyn hwn, roeddem eisiau rhannu mwy o wybodaeth gyda chi am yr hyn y mae'r safonau yn ei gynnwys a beth y mae'n ei olygu i chi.

### 1. Beth yw Safon Ansawdd Tai Cymru 2023?

Ym mis Hydref 2023, cyflwynodd LIC set newydd o safonau ar gyfer tai cymdeithasol yng Nghymru. Mae'n canolbwyntio ar ddarparu tai fforddiadwy o ansawdd da i denantiaid, sy'n addas ar gyfer anghenion preswylwyr presennol a'r dyfodol.

### 2. Beth yw'r prif bethau sydd wedi'u cynnwys yn y safonau newydd

Er mwyn i ni fodloni safonau LIC, mae'n rhaid i'ch cartrefi:

- **Fod mewn cyflwr da**
  - Mae'n rhaid i'r waliau fod mewn cyflwr da, ac nid yn wan nac yn disgyn i lawr
  - Ni ddylech fod â thamprwydd yn eich cartref.
  - Dylai'r grisiau fod yn ddiogel.
- **Bod yn saff a diogel**
  - **Dylai drysau a ffenestri** fod yn saff a diogel. Byddwn yn dilyn canllawiau'r Heddlu Diogelu drwy Ddylunio i weld sut allwn ni wneud hyns.
  - **Diogelwch tân:** mae'n rhaid i gartrefi gael synwyryddion gwres a mwg.
  - Mae'n rhaid i chi gael ffordd hawdd a diogel i **ddianc os oes tân**
  - **Diogelwch nwy a gwresogi:** mae'n rhaid i gartrefi gael synhwyrydd carbon monocsid.
  - **Gwiriadau diogelwch yn y cartref:** os oes gan gartrefi systemau nwy, olew neu danwydd solet, mae'n rhaid i ni gynnal gwiriad diogelwch unwaith y flwyddyn. Mae'n rhaid i ni roi copi i chi o'r gwiriadau diogelwch.
  - **Diogelwch trydanol:** dylai eich cartref gael gwiriad diogelwch trydanol bob 5 mlynedd, a byddwn yn rhoi copi i chi.
- **Ni ddylai fod yn rhy ddrud i'w wresogi. Ac ni ddylai fod yn niweidiol i'r amgylchedd.**
  - Mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr nad yw gwresogi eich cartref yn costio gormod o arian. A sicrhau nad yw'n niweidiol i'r amgylchedd.
  - Mae'n rhaid i'ch cartref adael i aer lifo drwyddo, yn enwedig mewn ceginau ac ystafelloedd ymolchi.
  - Dylai fod gan eich cartrefi osodiadau a chyfarpar sy'n atal dŵr rhag cael ei wastraffu. Gall hyn eich helpu i gadw eich biliau dŵr i lawr ac mae'n dda i'r amgylchedd
- **Yn cynnwys ardal amlbwrpas a chegin fodern**
  - Dylai'r ceginau fod yn llai na 16 oed, oni bai eu bod mewn cyflwr da.
  - Dylai fod gan geginau newydd le ar gyfer popty, oergell a pheiriant golchi, a chyfarpar arall os oes angen.
  - Mae'n rhaid i loriau'r gegin fod yn rhai di-lithr.
  - Os nad oes unrhyw le i olchi a sychu dillad, dylem ddarparu peiriant sychu dillad.

**Yn cynnwys ystafell ymolchi fodern**

- Dylai'r ystafelloedd ymolchi a'r toiledau fod yn llai na 26 oed, oni bai eu bod mewn cyflwr da.
- Mae'n rhaid i'r ystafell ymolchi fod â llawr di-lithr.



  – ylent gynnwys cawod a bath os yw'n bosibl. Gall y gawod fod uwchben y bath.

- **Cyfforddus ac addas i'r sawl sy'n byw yno**
  – Dylai eich cartref fod â digon o le i fyw ynddo'n gyfforddus.
  – Lloriau – Pan fydd tenantiaid newydd yn symud i mewn, mae'n rhaid i'r holl ystafelloedd fod â'r math cywir o loriau a bod mewn cyflwr da.
  – Sŵn – Dylai'r waliau a'r ffenestri fod o ansawdd da, fel nad yw sŵn normal yn achosi unrhyw drafferth i chi.
  – Mae angen i ni wneud yn siŵr bod y cartref yn addas i'ch anghenion, yn cynnwys tenantiaid anabl a hŷn.

- **Bod â gardd os yw'n bosibl**
  – Nid yw bob amser yn bosibl cael gardd gan ei fod yn dibynnu ar le rydych chi'n byw.
  – Dylech allu mynd i'ch gardd yn ddiogel ac yn hawdd.
  – Dylai fod llwybr i chi allu cerdded arno.
  – Os yw'n bosibl, dylem ddarparu lein sychu dillad, a dylai fod llwybr yn arwain ato.
  – Dylech fod â man storio y gellir ei gloi y tu allan. E.e. i storio beic neu offer gardd.

- **Bod â man braf y tu allan os yw'n bosibl**
  – Mae angen i ni geisio creu man braf y tu allan, sy'n hawdd i ofalu amdano.
  – Dylai'r gofod fod yn gyfeillgar i fywyd gwyllt.
  – Dylai fod digon o blanhigion a choed o gwmpas sydd hefyd yn gadael golau'r haul drwodd.
  – Os nad oes gennych chi eich gardd eich hun, dylem ddarparu digon o le storio y tu allan i chi ar gyfer beics, pramiau neu sgwteri symudedd.

## 3. Beth yw'r amserlenni?

**Dyma'r prif derfynau amser y byddwn yn gweithio tuag atynt:**

**31 Mawrth 2025:**

– Asesu cyflwr eich cartrefi fel ein bod yn gwybod beth sydd angen i ni ei wneud. I wneud hyn byddwn yn edrych ar y wybodaeth sydd gennym am eich cartrefi. Efallai bydd angen i ni ymweld â rhai o'ch cartrefi ond byddwn yn rhoi gwybod i chi ymlaen llaw os bydd angen i ni wneud hyn.

– Creu cynllun a chanfod faint fyddai cael eich cartrefi i'r safon yn ei gostio. Mae'n rhaid i ni roi hwn i LIC.

– Gweithio'n agos â chi a dangos beth fyddwn ni'n ei wneud fel y gallwch chi ddweud eich dweud. Byddwn yn gweithio'n agos ar hyn gyda Ffederasiwn Tenantiaid a Phreswylwyr Sir Ddinbych.

– Diweddaru ein cynllun busnes i gynnwys unrhyw welliannau a gwaith sydd angen i ni ei wneud i gydymffurfio â safonau SATC 2023.

**31 Mawrth 2027:**

– Cynhyrchu ein Llwybrau Ynni Targed gan ddefnyddio'r wybodaeth sydd gennym o asesiadau eich cartref. Mae Llwybr Ynni Targed yn dangos i ni beth sydd angen i ni ei wneud i sicrhau bod gan eich cartref system wresogi y gallwch chi fforddio i'w droi ymlaen.

**31 Mawrth 2034:**

– Mae'n rhaid i ni fodloni'r safonau hyn.

## 4. Beth ydych chi wedi'i wneud hyd yma?

Hyd yma, rydym wedi bod yn gweithio drwy'r safonau SATC 2023 a rhoi cynllun gweithredu at ei gilydd y gallwn ni ei rannu â chi ym mis Mawrth 2025. Ym mis Gorffennaf, bu i ni ddiweddaru Ffederasiwn Tenantiaid a Phreswylwyr Sir Ddinbych ar ein cynnydd a'r hyn yr oeddem am ei wneud nesaf.

I helpu i lywio'r gwaith, rydym hefyd wedi gwrando ar eich ymatebion yn yr arolwg STAR 2023 diweddaraf ac rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon i ddeall sut yr hoffech i SATC 2023 gael ei siapio. Dros y misoedd nesaf, a thrwy gydol y rhaglen SATC 2023, byddwn yn cynnig cyfleoedd i chi ymgysylltu â ni a dweud wrthym beth sy'n bwysig i chi a'ch blaenoriaethau ar sut ydym yn darparu'r rhaglen hon i chi.

## 5. Sut fydd hyn yn cael ei ariannu?

Bydd y gwelliannau sydd eu hangen i fodloni'r safonau newydd yn cael eu hariannu gan ganran o Lwfans Atgyweiriadau Mawr LIC, cyllid grant arall a rhenti tenantiaid.

## 6. Sut allaf i gymryd rhan?

Rhan bwysig o'r safonau newydd hyn yw eich cyfranogiad a'ch ymgysylltiad yn y broses. Byddwn yn gweithio'n agos ar hyn gyda Ffederasiwn Tenantiaid a Phreswylwyr Sir Ddinbych ac rydym yn gobeithio sefydlu grŵp gorchwyl gyda thenantiaid yn y dyfodol.

Os hoffech fod yn rhan o Ffederasiwn Tenantiaid a Phreswylwyr Sir Ddinbych, neu'n rhan o grŵp gorchwyl o denantiaid, a'n cefnogi ni i roi'r SATC ar waith, cysylltwch â ni ar **01824 706000** neu anfonwch e-bost at **housing@denbighshire.gov.uk**

## 7. Ble alla i gael rhagor o wybodaeth?

Am ragor o wybodaeth am beth mae'r safonau hyn yn ei gynnwys, ewch i https://www.llyw.cymru/safon-ansawdd-tai-cymru-2023-0

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# COSTAU BYW
# Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych

Mae'r argyfwng costau byw yn effeithio ar bob un ohonom. Mae pris bwyd a nwyddau yn uwch, mae costau gwresogi ein cartrefi wedi cynyddu, mae tanwydd yn ddrutach, ac nid yw incwm pobl yn ymestyn mor bell ag yr oedd.

Os ydych yn ei chael hi'n anodd gyda'ch biliau, yn cael trafferth rheoli dyledion, ddim yn siŵr a yw eich cartref mor effeithlon o ran ynni ag y gallai fod, neu eisiau tawelwch meddwl yn gwybod eich bod yn hawlio popeth mae gennych hawl iddo, mae Cyngor ar Bopeth Sir Ddinbych yma i'ch helpu. Rydym yn gallu cynnig cyngor a chefnogaeth gyfrinachol, ddiduedd am ddim.

Gyda sesiwn ar wneud y mwyaf o incwm, fe wnawn eich helpu i sicrhau eich bod yn hawlio beth mae gennych hawl iddo a'ch bod yn derbyn y swm cywir o fudd-dal. Fe wnawn eich helpu i ddelio ag unrhyw ddyledion sydd gennych. Gallwn eich cyfeirio at gynlluniau a phrosiectau mwy (boed hynny ar gyfer boeleri newydd neu ddeunydd inswleiddio drwy Nyth, neu helpu gyda grantiau sydd ar gael), ac fe helpwn ni chi gyda chyngor ymarferol ar arbed ynni a phethau bach y gallwch eu gwneud.

Wrth i gostau byw barhau i gynyddu, mae'n bwysig eich bod yn gallu cael yr holl gefnogaeth rydych ei hangen cyn argyfwng, felly cysylltwch heddiw am gyngor annibynnol, diduedd a chyfrinachol am ddim

Ffoniwch ni ar **08082 787 933**
neu anfon e-bost **advice@dcab.co.uk**

## Dyma rai gwefannau defnyddiol am fwy o gyngor a chefnogaeth:

**Cyngor Sir Ddinbych**
https://www.denbighshire.gov.uk/cy/budd-daliadau-grantiau-a-chyngor-arian/cymorth-costau-byw/cymorth-costau-byw.aspx

**Money Helper UK**
https://www.moneyhelper.org.uk/cy

i gymorth. Mae'n dod â chefnogaeth a gwasanaethau tri darparwr cyngor ariannol sydd wedi'u cymeradwyo gan y Llywodraeth ynghyd: y Gwasanaeth Cyngor Ariannol, y Gwasanaeth Cyngor ar Bensiynau a Pension Wise.

**Turn2us**
https://www.turn2us.org.uk/

Mae Turn2us yn elusen yn y DU sy'n mynd i'r afael ag ansicrwydd ariannol. Mae'n cynnig gwasanaethau i gyfrif pa fudd-daliadau mae gennych hawl iddynt ac yn cynnal llinell gymorth i roi cymorth a gwybodaeth i bobl sydd ddim yn gallu defnyddio'r we neu'n cael trafferth gwneud hynny. Rhif eu llinell gymorth yw 0808 802 2000.

**StepChange**
https://www.stepchange.org/

Mae StepChange yn cynnig cyngor arbenigol, am ddim am ddyledion naill ai ar-lein neu dros y ffôn. Gallwch siarad gyda nhw am eich dyledion, a byddant yn ystyried eich sefyllfa ariannol a'r hyn y gallwch ei wneud nesaf. Rhif eu llinell gymorth ar ddyledion yw 0800 138 111.

**Iechyd Meddwl – Samariaid**
https://www.samaritans.org/cymru/samaritans-cymru/

Os ydych yn meddwl ei fod yn argyfwng neu os hoffech siarad gyda rhywun ar y ffôn, ffoniwch y Samariaid. Gallwch ffonio llinell gymorth y Samariaid ar 116 123 ddydd Llun i ddydd Sul ar unrhyw adeg, am ddim o ffôn symudol neu linell dir.

cyngor ar bopeth | citizens advice | Sir Ddinbych Denbighshire

# Beth yw Taliadau Gwasanaeth?

Yn ddiweddar, rhoddodd un o'n swyddogion gyflwyniad i Ffederasiwn Tenantiaid a Phreswylwyr Sir Ddinbych ynghylch Taliadau Gwasanaeth. Cafwyd ymateb gwych iddo, felly gofynnodd Ffederasiwn Tenantiaid a Phreswylwyr Sir Ddinbych i ni gynnwys erthygl yn y newyddlen nesaf, gan helpu'r holl denantiaid i ddeall mwy amdanynt.

**Beth yw Tâl Gwasanaeth?**
Mae Taliadau Gwasanaeth wedi bod yn cael eu nodi ar wahân i ffigwr rhent craidd ein tenantiaid dros y 10 mlynedd diwethaf.

Cyn hynny, roeddent yn rhan o'r ffigwr rhent yr oedd pawb yn ei dalu, ni waeth a oeddent yn derbyn gwasanaeth ai peidio. Erbyn hyn, dim ond y tenantiaid sy'n derbyn y gwasanaeth y codir tâl amdano.

Yn ôl Deddf Landlord a Thenant 1985, Tâl Gwasanaeth yw: "*Swm sy'n daladwy gan denant annedd fel rhan neu'n ychwanegol i'r rhent, sy'n daladwy'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol am wasanaethau, atgyweiriadau, gwaith cynnal a chadw, gwelliannau neu yswiriant neu gostau rheoli'r landlordiaid ac y mae'r cyfan neu ran ohono yn amrywio neu'n gallu amrywio yn ôl y costau perthnasol*"

**Pam ein bod ni'n codi Tâl Gwasanaeth?**
Rhoddwyd cyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru i bob Landlord Cymdeithasol gadw taliadau gwasanaeth ar wahân i ffigyrau rhent o fis Ebrill 2025 ymlaen. Roedd hyn er mwyn sicrhau mai dim ond y tenantiaid sy'n derbyn y gwasanaethau sy'n talu amdanynt. Rhan o Ddeddf Tai (Cymru). Roedd hyn o gymorth hefyd o ran tryloywder y taliadau, gan ein gwneud ni'n fwy atebol am ddarparu gwasanaethau sy'n cael eu hystyried yn rhai gwerth am arian.

**Pa Daliadau Gwasanaeth y mae Tai Sir Ddinbych yn eu hadennill ar hyn o bryd?**
Rydym yn adennill y canlynol:

- Cyfleustodau ardaloedd cymunedol, nwy, trydan a dŵr.
- Diogelwch tân ardaloedd cymunedol.
- Atgyweirio a chynnal a chadw golchdy cymunedol.
- Atgyweirio a chynnal a chadw lifft.
- Cynnal a chadw tiroedd a mannau chwarae.
- Glanhau ardaloedd cymunedol.
- Glanhau ffenestri cymunedol ac ambell floc o fflatiau.
- Mynediad drysau cymunedol.
- Diogelwch cymunedol (Teledu cylch caeëdig).
- Erialau teledu cymunedol.

**Pa symiau rydym ni'n eu hadennill?**
Caiff costau eu pennu am y flwyddyn yn seiliedig ar gostau a gafwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol. Pennir swm penodol dros 52 wythnos o'r flwyddyn.

Trwy wneud hynny, dim ond y gost wirioneddol am ddarparu'r gwasanaeth yr ydym ni'n ei hadennill. Ni chodir gormod na dim digon. Mae hyn hefyd yn gwneud pethau'n haws o ran cyllidebu ac yn cynnig eglurder i'r sawl sy'n derbyn Credyd Cynhwysol neu Fudd-dal Tai.

**Sut rydym ni'n dyrannu'r taliadau?**

Yn achos costau gwirioneddol mewn perthynas â bloc o fflatiau/cyfadeiladau, er enghraifft mesurydd trydan landlord ar gyfer goleuadau cymunedol, byddwn yn rhannu'r costau hynny â nifer y fflatiau yn y bloc hwnnw (gan gynnwys unrhyw lesddeiliaid).

Caiff gwasanaethau eraill a ddarperir ledled y sir, megis cynnal a chadw tiroedd neu ein gwasanaeth glanhau cymunedol symudol, eu rhannu rhwng yr holl eiddo sy'n derbyn y gwasanaeth hwnnw

**Tâl Rheoli / Gweinyddu**
Rydym ni hefyd yn codi tâl rheoli neu weinyddu o 15%. Mae hyn yn talu costau holl Swyddogion y Cyngor sy'n gysylltiedig â darparu neu weinyddu gwasanaethau tâl gwasanaeth. Mae'r rhain yn cynnwys y Swyddog Tâl Gwasanaeth, Swyddog Cyllid, Swyddog TGCh, Swyddog Arweiniol Casglu Incwm ac unrhyw un sydd ynghlwm â'r gwaith gweinyddol, gan gynnwys derbynebu a phrosesu Anfonebau.

**Sut rydym ni'n caffael gwasanaeth?**
Cymysgedd o brynu corfforaethol, tendro a dyfynbrisiau yn ogystal â gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan adrannau eraill Cyngor Sir Ddinbych. Yn ogystal, mae'n rhaid i'r darparwyr allu gweithio ar draws Sir Ddinbych gyfan. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cyfleustodau – Caffael Corfforaethol
- Cynnal a Chadw Tiroedd a Glanhau Cymunedol – Adrannau Mewnol CSDd
- Glanhau Ffenestri – Cyflenwyr Allanol - Dyfynbrisiau
- Cyfarpar Golchi Dillad – Cyflenwyr Allanol - Caffael
- Diogelwch Tân / Lifftiau – Cyflenwyr Allanol - Cymysgedd o gyflenwyr cynnyrch, dyfynbrisiau, caffael
- Darperir mynediad Drysau Cymunedol hefyd gan gymysgedd o'n staff mewnol a chontractwyr arbenigol

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

Funded by UK Government

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

# LLES
# PWRPAS
# STRWYTHUR

# WELLBEING
# PURPOSE
# ROUTINE



Cefnogaeth **am ddim** i ddod o hyd i'ch **swydd delfrydol**

**Free** support to find your **dream job!**

#MaeGwaithynGweithio

#WorkWorks

01745 331438
07342 070635

sirddinbychyngweithio@sirddinbych.gov.uk

workingdenbighshire@denbighshire.gov.uk

Sir Ddinbych yn Gweithio
Working Denbighshire

Cymunedau am Waith
Communities for Work

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYSYLLTU Â GWAITH
Ariennir gan Lywodraeth y DU

CONNECT TO WORK
Funded by UK Government

Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU
Funded by UK Government

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council

Cymorth **am ddim** i ddod o hyd i swydd sy'n iawn i **chi**

**Free** help to find a job that's right for **you**

Yn adeiladu Sir Ddinbych iachach, fwy cynhwysol

Building a healthier, more inclusive Denbighshire

P'un ai eich bod yn canolbwyblio ar eich iechyd, yn gofalu am rywun, neu ddim yn siŵr ble ddechrau... rydyn ni yma.

Whether you're focusing on your health, caring for someone, or just unsure where to start... we're here.



Sir Ddinbych yn Gweithio
Working Denbighshire

Cymunedau am Waith
Communities for Work

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYSYLLTU Â GWAITH
Ariennir gan **Lywodraeth y DU**
CONNECT TO WORK
Funded by **UK Government**

## Gwefan newydd i gefnogi hygyrchedd a'n tenantiaid


**Dros y chwe mis diwethaf, rydym wedi bod yn gweithio gyda Ffederasiwn Tenantiaid a Phreswylwyr Sir Ddinbych i adnewyddu a diweddaru ein gwefan.**




Roedd hi'n bwysig i'r grŵp i sicrhau bod y wefan yn adlewyrchu'r hyn sy'n bwysig i denantiaid, ei bod yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf ar flaenau eu bysedd a gwelliannau o ran sut i roi gwybod am atgyweiriadau. Cafodd cam un ei lansio ddiwedd mis Medi, ac rydym ni'n gobeithio y cytunwch chi fod hynny'n welliant go iawn.

Mae gennym waith i'w wneud o hyd. Dros y chwe mis nesaf, rydym yn gobeithio y bydd modd i denantiaid uwchlwytho lluniau a fideos wrth roi gwybod am waith atgyweirio. Mae gennym hefyd dudalen ddigwyddiadau, felly cofiwch gadw llygad arni dros yr haf flwyddyn nesaf, i gael gweld lle fyddwn ni yn ein cymunedau.

Os oes yna unrhyw beth yr hoffech ei weld ar ein gwefan, cysylltwch â ni!




## Cofiwch lenwi Arolwg Tenantiaid a Phreswylwyr 2025!

**Mae eich barn a'ch adborth yn bwysig i ni. Rhowch wybod i ni sut yr ydym ni'n gwneud a lle y gallwn wneud gwelliannau.**

Cawsom ymateb gwych i'n harolwg diwethaf, gyda 893 o ymatebion (28%), lle'r oedd 890 ohonynt wedi'u darparu ar-lein. Os oes gennym ni eich cyfeiriad e-bost a/neu rif ffôn symudol, dylech fod wedi derbyn dolen ar gyfer llenwi ein Harolwg Tenantiaid a Phreswylwyr diweddaraf! Cliciwch ar y ddolen yr ydym ni wedi'i hanfon atoch a llenwch eich arolwg heddiw! Neu sganiwch y cod QR.

I'r rhai ohonoch nad oes gennym ni eich cyfeiriad e-bost neu eich rhif ffôn symudol, dylech fod wedi derbyn llythyr yn egluro sut i wneud cais am gopi papur o'r arolwg. Os hoffech chi dderbyn copi papur o'r arolwg, cysylltwch â'n Canolfan Gyswllt heddiw ar 01824 706000, neu gallwch anfon e-bost at Tai@sirddinbych.gov.uk

Yn yr arolwg diwethaf, fe nodoch chi mai eich prif flaenoriaethau oedd:

- Gwella ansawdd ein heiddo.
- Ymgymryd â gwaith atgyweirio'n gynt a chwblhau gwaith atgyweirio sydd heb gael ei wneud.
- Lleihau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol.
- Gwrando ar denantiaid.
- Cyfathrebu gwell.
- Yn ogystal â hynny, nododd 85% ohonoch eich bod yn fodlon ag ansawdd cyffredinol eich cartref. Bydd rhagor o waith yn cael ei gwblhau i ystyried manylion y sylwadau er mwyn ein galluogi i ddatblygu ein hymateb a byddwn yn cynnwys diweddariad "Dywedoch Chi - Gwnaethom Ni" yn ein newyddlenni rheolaidd

Os hoffech chi ddysgu lle'r ydym ni arni gyda'r blaenoriaethau hyn, cymerwch olwg ar ein newyddlen Gwanwyn/Haf 2025 ar-lein drwy https://www.taisirddinbych.co.uk/asset-library/newyddlen-rhifyn-15-gwanwyn-2025-cymraeg.pdf tudalen 7.

### YSTADEGAU STAR

**Gwasanaeth cyffredinol** — Dywedodd 85% ohonoch eich bod yn fodlon â'r gwasanaeth cyffredinol a ddarparwn

**Ansawdd y cartref** — Dywedodd 82% ohonoch eich bod yn fodlon ag ansawdd cyffredinol eu cartref

**Atgyweiriadau** — Dywedodd 79% ohonoch eich bod yn fodlon â'r ffordd yr ydym yn delio ag atgyweiriadau a chynnal a chadw

**Rhent** — Dywedodd 86% ohonoch eich bod yn fodlon bod eu rhent yn rhoi gwerth am arian

**Gwrandewch a gweithredwch** — Dywedodd 64% ohonoch eich bod yn fodlon ein bod yn gwrando ac yn gweithredu ar yr hyn rydych chi'n ei ddweud

**Eich dweud** — Dywedodd 63% ohonoch eich bod yn fodlon bod gennych lais yn y ffordd y caiff gwasanaethau eu rheoli

**Taliadau Gwasanaeth** — Dywedodd 69% ohonoch eich bod yn fodlon bod eu tâl gwasanaeth yn rhoi gwerth am arian

**Penderfyniadau** — Dywedodd 57% ohonoch eich bod yn fodlon ar y cyfleoedd i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau

**Ymddygiad gwrthgymdeithasol** — Dywedodd 62% ohonoch eich bod yn fodlon â'r ffordd yr ydym yn delio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol

**Cymdogaeth** — Dywedodd 82% ohonoch eich bod yn fodlon â'ch cymdogaeth fel lle i fyw

**Saff ac yn ddiogel** — Dywedodd 84% ohonoch eich bod yn fodlon ein bod yn darparu cartref sy'n ddiogel ac yn ddiogel

**Hawdd delio â** — Dywedodd 83% ohonoch eich bod yn fodlon ein bod yn hawdd delio â ni

**Cyfraniad cadarnhaol** — Dywedodd 67% ohonoch eich bod yn fodlon ein bod yn gwneud cyfraniad cadarnhaol i'ch cymdogaeth

**Ymddiried** — Dywedodd 74% ohonoch eich bod yn ymddiried mewn Tai Sir Ddinbych

# Cyngor llwydni a chyddwysiad

## Dyma ein hawgrymiadau i leihau llwydni ac anwedd yn eich cartrefi'r gaeaf hwn!

**Beth yw llwydni ac anwedd?**

Mae llwydni ac anwedd yn ymddangos yn eich cartref pan mae'r aer yn rhy wlyb.

Mae anwedd yn aml yn ymddangos ar ffenestri pan maent yn stemio. Mae hyn yn digwydd pan fydd aer cynnes, gwlyb yn dod i gysylltiad gydag arwyneb oerach.

Gall sbotiau llwydni du ddechrau tyfu yn eich cartref pan mae yna ormod o anwedd. Gall dyfu ar waliau, nenfydau a dodrefn.

Mae sbotiau du llwydni yn niweidiol i iechyd.

**O ble daw anwedd?**

Gall lleithder yn eich cartref ddod trwy goginio, sychu eich dillad tu mewn neu wrth gael cawod



neu fath. Gall y lleithder hwn greu anwedd yn eich cartref.

**Pethau pwysig i'w gwybod:**

Trwy gydweithio gallwn leihau llwydni ac anwedd yn ein cartrefi. Er mwyn helpu gyda hyn, cofiwch:

**Ein cyfrifoldebau ni i chi yw:**

- Ymateb yn brydlon i adroddiadau o lwydni ac anwedd.
- Rhoi gwybodaeth a chyngor i chi i leihau anwedd yn eich cartref.

**Gallwch chi helpu trwy:**

- Ddilyn ein cyngor i leihau llwydni ac anwedd yn eich cartref.
- Adrodd unrhyw broblemau gyda llwydni ac anwedd yn eich cartref yn brydlon.
- Er mwyn rhoi gwybod am broblem, gallwch:

– Ffonio ni ar **01824 706000**

– E-bostio ni ar **tai@sirddinbych.gov.uk**

– Ymweld â ni ar-lein ar **www.taisirddinbych.co.uk/**

## Y newyddion da yw y gallwch leihau'r lleithder yn eich cartref drwy ddilyn yr argymhellion hyn!

**Awgrym 1:** Ceisiwch gadw eich cartref yn gynnes ar dymheredd cyson. Gadewch ddrysau mewnol ar agor er mwyn i aer allu llifo o amgylch eich cartref

**Awgrym 2:** Rhowch gaead ar eich sosbenni pan fyddwch chi'n coginio, a pheidiwch â defnyddio mwy o ddŵr nag sydd ei angen.

**Awgrym 3:** Defnyddiwch eich ffan echdynnu os oes gennych chi un. Os nad oes gennych chi un, agorwch ffenestr i adael y stêm allan.

**Awgrym 4:** Agorwch eich ffenestri pan fyddwch chi'n coginio, yn cael cawod neu fath. Pan fyddwch chi'n rhedeg bath, rhowch ddŵr oer i mewn yn gyntaf, yna ychwanegwch y dŵr poeth. Mae hyn yn lleihau stêm o hyd at 90%.

**Awgrym 5:** Os oes gennych system awyrellu yn eich ffenestri, sicrhewch eu bod ar agor er mwyn cynorthwyo â llif aer.

**Awgrym 6:** Os allwch chi, rhowch eich dillad y tu allan i sychu.

**Awgrym 7:** Os ydych chi'n sychu eich dillad tu mewn:

- Peidiwch â rhoi dillad gwlyb ar eich rheiddiaduron.
- Rhowch nhw yn yr ystafell ymolchi gyda'r gwres ymlaen.
- Defnyddiwch sychwr dillad.
- Caewch ddrws yr ystafell ymolchi a chadwch y ffenestr yn gil agored neu rhowch y ffan echdynnu ymlaen.

**Awgrym 8:** Os ydych chi'n defnyddio peiriant sychu dillad, sicrhewch fod gennych fent i'r tu allan, oni bai bod gennych beiriant sychu dillad cyddwyso.

**Awgrym 9:** Sychwch unrhyw ddŵr sydd ar:

- Eich ffenestri a sil ffenestri, yn enwedig yn y bore, ar ôl cael cawod neu fath, wrth goginio ac ati.
- Growt neu deils mewn ystafelloedd ymolchi a cheginau.
- Teils ar ôl cael cawod.
- Corneli'r bath. .

**Awgrym 10:** Peidiwch â rhoi dodrefn na gwelyau yn uniongyrchol yn erbyn wal er mwyn i'r aer allu cylchredeg

# Paratoi eich cartref ar gyfer y gaeaf

Mae hi'n adeg honno o'r flwyddyn eto, mae hi'n dechrau oeri felly rydym yn dechrau troi'r gwres ymlaen! Dyma awgrymiadau i baratoi eich cartref ar gyfer y gaeaf!

**Addasu'r tymheredd**

Yn ystod y gaeaf, mae'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni yn argymell y dylech osod eich gwres ar 18 i 21 gradd canradd. Ceisiwch weld pa dymheredd sy'n gyfforddus i chi a'i gynyddu os oes angen.

Gwirio eich gwresogyddion

Unwaith y mae'r gwres ymlaen, rhowch ychydig o funudau iddo ddechrau gweithio. Yna, gwiriwch bob gwresogydd i weld a yw'n dechrau cynhesu. Os nad ydynt yn cynhesu, efallai bod angen edrych ar eich system wresogi. Isod, mae ambell broblem gyffredin a rhai atebion syml y gallech roi cynnig arnynt.

**Problemau cyffredin**

- Rhannau oer ar wresogyddion – os ydych chi'n sylwi ar rannau oer ar ben uchaf eich gwresogydd, efallai fod angen gollwng aer ohono. Rydym yn eich cynghori i gysylltu â ni os felly.

**Colli pwysedd**

Mae boeleri cyfunol nwy dan bwysedd, felly mae angen i'ch boeler fod tua 1 i 1.5 bar. Gwiriwch y mesurydd pwysedd – os yw'r pwysedd yn is na hyn, efallai y bydd angen cynyddu'r pwysedd.

Os ydych chi'n sylwi ar bwysedd isel, cysylltwch â'n contractwyr, Liberty, ar **0330 333 8384.**

**Gosodiadau amser**

Efallai fod eich thermostat a'ch amserydd wedi'u gosod i danio ar adegau penodol. Ar ddiwrnodau cynhesach, gallwch droi'r thermostat yn is. Mae hyn yn atal eich gwres rhag dod yn ôl yn ystod cyfnod o dywydd oer.

Os nad yw eich boeler yn tanio'n awtomatig pan fyddech yn disgwyl iddo wneud, gwiriwch fod y thermostat wedi'i godi'n ei ôl.

## Awgrymiadau at y gaeaf

- Gall boeleri weithiau stopio gweithio os nad ydynt yn cael eu defnyddio'n rheolaidd. Rydym yn awgrymu i chi danio eich gwres canolog am o leiaf awr bob dydd trwy gydol y aeaf i sicrhau ei fod yn parhau i weithio heb drafferthion.
- Gall y dŵr yn eich pibellau tu allan rewi pan mae hi'n oer iawn. Gall hyn atal y boeler rhag gweithio a hyd yn oed achosi i'r pibellau fyrstio. Os felly, gallwch geisio toddi'r pibellau'n ofalus gyda dŵr cynnes.

## Pryd i ofyn am help

Os ydych chi wedi dilyn y cyngor uchod ac nad yw eich gwres canolog yn gweithio er hynny, ffoniwch Liberty ar **0330 333 8384.**

Cofiwch hefyd y bydd Liberty yn cynnal gwiriad bob blwyddyn i sicrhau bod eich boeler yn ddiogel ac yn gweithio'n effeithlon. Mae'n bwysig eich bod yn ateb eu galwadau ac yn gadael iddynt ddod i'ch cartref i wneud hyn.

